*This document is available in English* **Eitem Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **17 Mehefin 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Dawn Docx, Prif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Dawn Docx, Prif Swyddog Tân** |
| Pwnc | **Trefniadau Llywodraethu ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Tynnu sylw Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) at y gwaith ymchwil a gwerthuso sy'n cael ei wneud ynglŷn â'r trefniadau llywodraethu priodol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol o'r drafodaeth sy'n digwydd ar hyn o bryd ynglŷn â'r trefniadau llywodraethu priodol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno bwriad Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, sydd hefyd yn gyfrifol am Dân ac Achub yng Nghymru, i'r Aelodau ac yn eu cyfeirio at farn ac argymhellion y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a gyhoeddwyd ar 6 Mehefin 2024.

**ARGYMHELLIAD**

3 Bod yr Aelodau'n nodi:

i) Y gwaith a gychwynnwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio gydag Awdurdodau Lleol De Cymru; ac

ii) Ail ran yr adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol sy'n egluro eu barn am newid y trefniadau llywodraethu ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.

**GWYBODAETH**

4 Sefydlwyd y trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru drwy dri Gorchymyn Cyfuno ym 1996. Yn sgil y rhain sefydlwyd y tri Awdurdod Tân presennol a'r dull cyllido cyfunol sy'n gweithio drwy godi ardoll ar bob Awdurdod Lleol cyfansoddol.

5 Dim ond un model llywodraethu yw hwn, ond o leiaf mae'n gyson ar draws Cymru gyfan. Yn draddodiadol, bu nifer o fodelau llywodraethu ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yn y DU, megis y model Cyngor Sir, Awdurdodau Cyfunol ac Awdurdodau Metropolitanaidd. Yn y blynyddoedd diweddar mae hyn wedi'i rannu ymhellach gyda modelau Maerol, Comisiynwyr Heddlu, Troseddu a Thân, Corfforaeth Unigol yn Llundain a Byrddau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

6 Dros y blynyddoedd bu rhywfaint o drafod ynghylch a yw'r model presennol yng Nghymru yn addas ar gyfer y dyfodol ac arweiniodd hyn at Bapur Gwyn yn 2018. Yn y pen draw, penderfynwyd aros gyda'r model llywodraethu presennol ond ymgymryd â gwaith pellach ynghylch cyllido, ond nid aeth hyn yn ei flaen oherwydd Covid.

7 Mae'r mater hwn wedi ei ailgodi o ganlyniad i'r Adolygiad annibynnol o Ddiwylliant Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a phenderfyniad Llywodraeth Cymru i ymyrryd drwy ddisodli'r Awdurdod Tân gyda Chomisiynwyr.

8 Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio wedi ysgrifennu at Arweinwyr Cynghorau yn Ne Cymru yn ddiweddar yn nodi ei hawydd i weithio ar y cyd i ddatblygu model llywodraethu newydd, cliriach a mwy effeithiol ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub. Gweler Atodiad 1. Yn ei llythyr mae hi wedi gofyn saith cwestiwn i ysgogi'r broses o feddwl. Mae copi o'r llythyr hwn hefyd wedi cael ei anfon at Arweinwyr holl Gynghorau Cymru.

9 Ar 6 Mehefin 2024, cyhoeddodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ei adroddiad o'r enw "Seinio'r Larwm: Llywodraethiant Gwasanaethau Tân ac Achub". Mae'r ugain tudalen olaf yn adlewyrchu eu barn ynghylch trefniadau llywodraethu.

10 Yn ogystal, mae Archwilio Cymru wrthi'n ysgrifennu adroddiad i adlewyrchu eu sylwadau hwy ynghylch y trefniadau llywodraethu a bydd yn cael ei rannu gyda'r Aelodau ar ôl iddo gael ei gyhoeddi.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae llywodraethu da yn ein galluogi i gyflawni ein Hamcanion Llesiant. |
| Cyllideb | Nid yw'r rhain yn hysbys hyd yma. |
| Cyfreithiol | Bydd unrhyw newid yn y Gorchymyn Cyfuno yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol. |
| Staffio | Nid oes ystyriaethau staffio y gwyddom amdanynt. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Nid oes unrhyw faterion y gwyddom amdanynt yn codi. |
| Risgiau | Y risg bod amser ac adnoddau'n cael eu dargyfeirio i ddatblygu a phrofi modelau llywodraethu amgen, neu ar y llaw arall y risg o fethiant o ran llywodraethu da |